

Esbonio, nid ychwanegu

*“Oherwydd yr ydym ni sydd yn y babell hon yn ochneidio dan ein baich.”
(adn. 4)*

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 5:1–10 ac yna myfyrio

Efallai fod rhai ohonoch yn ei chael hi'n anodd i ddilyn rhesymeg yr apostol pan sonia am yr ochenaid fel rhan o etifeddiaeth y Cristion. Mae'n llawer haws i feddwl am llawenydd yr Ysbryd, ond, fel y gwelwyd eisoes, mae'r ochenaid yn rhan o'n profiad. Efallai y buasai'n ddymunol petai Paul wedi ychwanegu at ei ddysgeidiaeth ar y mater yma, er mwyn gwneud pethau ychydig yn fwy clir. Os ydych yn eich cael eich hun yn ymateb fel hyn, caniatewch i mi ddweud y bydd yn rhaid i chi drafod y mater gyda'r apostol ei hunan. Cefais un pregethwr yn dweud wrth ei gynulleidfa unwaith: “Fy ngwaith i yw esbonio llythyrâu'r apostol, nid ychwanegu atynt.”

Beth am ystyried ymhellach y cwestiwn o fyw gyda'r tensiwn rhwng llawenydd y Cristion ac ochenaid y Cristion. Mae'r rhai sydd yn gwybod dim ond am y llawenydd, ac yn gwybod dim am yr ochenaid, yn byw bywyd ar lefel ansensitif iawn. Nid ydynt yn ystyried fod nifer helaeth iawn o bobl y byd yma yn byw mewn newyn, rhai yn newynu i farwolaeth. Mae bod yn ddall i'r ffaith yma, ac i nifer o ffeithiau eraill, yn golygu na fyddwn yn medru arddangos cydymdeimlad Crist. Ar y llaw arall, mae'r rhai sydd ond yn ymwybodol o'r ochenaid, a byth yn mynd i mewn i llawenydd yr Ysbryd, yn medru eu cael eu hunain yn isel iawn, gyda phroblemau'r byd yn pwysu yn drwm ar eu hysgwyddau. Nid yw byw gyda'r tensiwn yma yn rhwydd, eto, fe'n gelwir i fyw gyda'r tensiwn. Roedd Paul yn byw felly. Yn yr un modd, rhaid i ninnau astudio ymhellach.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 13:31–35; 19:41

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bu i Iesu ochneidio dros Israel?
2. Pryd oedd y tro diwethaf i chi ochneidio dros eich cenedl?

Gweddi

O Dad, rwy'n diolch i ti am realaeth yr apostol. Yr wyf am fod yn ymwybodol o realiti bywyd fel yr oedd Paul. Ond, gallaf wneud hyn ond i'r graddau yr wyt yn fy nghynnal â'th orfoledd. Dyma fy etifeddiaeth. Cynorthwya fi i'w feddiannu yn enw Crist. Amen.